Hawdd ei Ddeall

# Cymrodoriaeth Cymru Fenis 10

Rhaglen gelfyddydau gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gefnogi pobl i ddatblygu eu sgiliau a chysylltu gyda phobl eraill sydd yn gweithio'n rhyngwladol




Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gyngor Celfyddydau Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Cymrodoriaeth Cymru Fenis 10**'.

**Mehefin 2022**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai eich bod angen help i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Rydych chi'n gallu gweld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 21**.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gyda:

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffurflen cysylltu gwefan:** https://arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Ffôn:** 03301 242733




Mae'r llun ar y clawr yn boster i'r arddangosfa gan Helen Sear, o'r enw the rest is smoke, 2015.

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Cynnwys

**Tudalen**


**Cyflwyniad ..........................................................................4**

Am y Rhaglen........................................................... 5

Beth fydd y Gymrodoriaeth yn ei gynnig ...................... 9

Pwy sydd yn gallu gwneud cais i fod yn gymrawd? . 11

Dyma sut y byddwn ni yn dewis pobl .......................... 13

**Sut i wneud cais ..........................................................14**

Gwybodaeth arall ....................................................... 18

Hygyrchedd ............................................................... 19

Sut i gysylltu gyda ni ................................................... 20

**Geiriau Anodd.............................................................21**

# Cyflwyniad



Rydyn ni eisiau gwahodd pobl sydd yn gweithio yn y meysydd yma i fod yn rhan o raglen am y **celfyddydau gweledol**:

> Mae **celfyddydau gweledol** yn meddwl celf sydd yn gallu cael ei weld. Er enghraifft, peintiad, llun, cerflun a chelf byw



- Artistiaid



- **Curadwyr**

> **Curadydd** ydy person sydd yn gwneud arddangosfeydd ac mae'n gallu bod yn gyfrifol am gasgliad o gelf.



- Gweithwyr creadigol proffesiynol



Enw'r rhaglen ydy **Cymrodoriaeth Cymru Fenis 10**.



Rydyn ni eisiau cefnogi pobl o Gymru sydd yn ei chael yn anodd i ddangos eu gwaith mewn gwledydd eraill.



Ac fe fydden ni yn hoffi clywed gan bobl o grwpiau dydyn ni ddim yn gweld digon ohonyn nhw oherwydd eu cefndir. Er enghraifft, pobl sydd yn wynebu heriau oherwydd eu rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rhywiol.




Rhaid inni dderbyn ceisiadau pobl erbyn **5pm ar 7 Gorffennaf 2022**.

## Am y Rhaglen



Mae Cymru wedi bod yn rhan o arddangosfa yn Fenis, yr Eidal o'r enw y **Venice Biennale** am lawer o flynyddoedd.



Y flwyddyn yma rydyn ni wedi stopio i feddwl am beth fydden ni yn hoffi ei wneud yno yn y dyfodol.



Er enghraifft, sut rydyn ni'n gallu gwneud ein cysylltiadau gydag artistiaid mewn gwledydd eraill yn fwy cryf.



A sut rydyn ni'n gallu gweithio mewn gwledydd eraill ond meddwl am yr effaith y mae teithio yn ei gael ar y blaned.



Yn y rhaglen fe fyddwn ni yn edrych ar y mathau yma o faterion a chwestiynau.



Mae rhagor o wybodaeth yma:

[https://arts.wales/cy/fenis](https://arts.wales/cy/fenis)



Mae rhagor o wybodaeth am y digwyddiad yn Fenis yma:

[https://arts.wales/cy/fenis](https://arts.wales/cy/fenis)



Mae **Cymrodoriaeth Cymru Fenis 10** yn rhaglen **6 mis** i 10 o bobl sydd yn gweithio yn y **celfyddydau gweledol** yng Nghymru.



Fe fyddwn ni yn ei alw yn **Cymrodoriaeth**. Ac fe fyddwn ni'n galw'r bobl sydd yn cymryd rhan yn **Cymrodyr**.



Fe fydd y **Gymrodoriaeth** yn cefnogi **cymrodyr** i ddatblygu eu sgiliau a chyfarfod pobl eraill sydd yn gweithio yn rhyngwladol.



Fe fydd yn eu cefnogi nhw i helpu gwaith mewn gwledydd eraill yn y dyfodol.




Fe fydd yn rhedeg o **Medi  2022 i Chwefror 2023**.

Fe fydd y 10 person yn:



- cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu sydd yn cael ei rhedeg gan **Artes Mundi.**



- cymryd rhan mewn **ymchwil,** hyfforddiant a **mentora**



Mae **ymchwil** yn meddwl chwilio am wybodaeth ar rywbeth.

Mae **Mentora** yn meddwl cefnogi rhywun i ddysgu sgiliau newydd.



- Dysgwch am, ac o bosibl ymweld gyda'r **Venice Biennale**.

## Beth fydd y Gymrodoriaeth yn ei gynnig



- Yr amser datblygu sydd yn cael ei roi i bob cymrawd fydd 30 diwrnod ar draws y rhaglen 6 mis.



- Fe fydd gweithdai a sesiynau ar-lein.



- Rydyn ni eisiau i chi **werthuso'r** gwaith rydych chi yn ei wneud.

Mae **gwerthuso** yn meddwl edrych dros y gwaith rydych chi wedi ei wneud a meddwl am beth rydych chi wedi ei ddysgu a beth wnaeth weithio yn dda. A beth wnaeth ddim gweithio yn dda.

Mae'r Gymrodoriaeth yn cael ei ariannu gan grant i bob person:



- £15,000 ydy cyfanswm yr arian ar gyfer pob person.



- Mae hyn yn cael ei rannu felly mae £7,500 ar gyfer eich amser i gymryd rhan, ac mae hyn tua 30 diwrnod.

  Ac mae £7,500 am bethau fel **ymchwil**, hyfforddiant a **mentora** ac ar gyfer teithio.



- Fe fydd teithio a phrydau bwyd yn cael eu talu gydag arian ychwanegol ar gyfer y gweithgareddau sydd wedi cael eu cynllunio gyda Artes Mundi.



Rydyn ni eisiau rhoi'r gefnogaeth maen nhw ei angen i bob **cymrawd**.




Ac iddyn nhw wneud cynllun gyda **Artes Mundi**.



Rydyn ni'n deall y bydd gan **gymrodorion** bethau eraill efallai yn digwydd yn eu bywydau.



Ond rydyn ni yn gofyn i bobl roi'r **Gymrodoriaeth** yn gyntaf cymaint ag maen nhw'n gallu.



Efallai y byddwn ni yn  gallu rhoi rhywfaint o arian ychwanegol i gymrodyr sydd ag anghenion ychwanegol.

Er enghraifft, os ydyn nhw yn ofalwyr.

## Pwy sydd yn gallu gwneud cais i fod yn gymrawd?

Rydych chi'n gallu gwneud cais os:



- Mae gennych chi brofiad da o'r celf rydych chi'n ei wneud.A dangos eich bod wedi bod yn gwneud hyn am 3 blynedd.




- Gallu dangos pa mor bwysig ydy hyn i'ch datblygiad a'ch gyrfa.



- Gallu dweud wrthyn ni yn glir pam eich bod eisiau cymryd rhan.



- Gallu dweud rhagor wrthyn ni am eich gwaith hyd yn hyn. A beth hoffech chi ei wneud.



- Gallu dweud wrthyn ni sut rydych chi yn cydfynd gyda beth ydy'r **Gymrodoriaeth**.



Dydy'r **Gymrodoriaeth** ddim yn ymwneud â gwneud celf newydd.

## Dyma sut y byddwn ni yn dewis pobl

Fe fyddwn ni yn edrych ar:



- Ansawdd gwaith a phrofiad person.



- Beth ydy anghenion datblygu person a sut mae hyn yn cydfynd gyda nodau'r Gymrodoriaeth.



- Pa mor debygol ydy hi bod y person yn gallu gwneud beth maen nhw eisiau ei wneud yn yr amser sydd yn cael ei roi. A'r arian grant sydd yn cael ei roi.



- Profiadau go iawn pobl.

# Sut i wneud cais




Fe fydd angen i chi wneud cais ar-lein ar ein porth ar-lein.

Fe fydd angen i chi gofrestru yno hefyd os nad ydych chi wedi gwneud hynny yn barod.





Cliciwch yma os gwelwch yn dda:

https://porth.celf.cymru/



Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau gyda'r porth, e-bostiwch ni os gwelwch yn dda: grants@arts.wales.



Pan rydych chi wedi cofrestru mae angen i chi lenwi'r cais **Cymorodoriaeth Cymru Fenis 10**.

**Rhowch yr wybodaeth yma inni os gwelwch yn dda:**



- Dywedwch wrthyn ni amdanoch eich hun  a beth rydych chi'n ei wneud.



- Dywedwch wrthyn ni am eich profiad.




- Dywedwch wrthyn ni am eich syniadau a chynlluniau ar gyfer gweithio yn rhyngwladol yn y dyfodol.



- Dywedwch wrthyn ni am beth rydych chi angen cefnogaeth, yn cynnwys hyfforddiant, **mentora** neu **ymchwil** sydd yn bwysig i chi i'ch helpu chi i ddatblygu eich sgiliau a gyrfa ar gyfer y dyfodol.



- Dywedwch wrthyn ni sut y byddech chi yn gweithio gyda'r digwyddiad yn Fenis.



Rydych chi'n gallu ateb y pethau yma drwy deipio hyd at 2 dudalen.




Neu gwneud fideo neu recordiad sain 4 munud.



- Rydyn ni angen gwybod sut y byddech chi yn gwario'r arian grant Mae enghraifft o hyn yn y Cwestiynau Cyffredin ar ein gwefan yma https://arts.wales/cy/cymrodoriaeth-fenis-cymru-10



- Hyd at 8 enghraifft o'ch gwaith, Fe ddylai fideos fod yn 4 munud.




- Eich **C.V**.

**C.V** ydy **Curriculum Vitae**. Mae'n rhestru'r holl waith rydych chi wedi ei gael yn cynnwys gwaith gwrifoddol.

Mae'n dweud pa gymwysterau sydd gennych chi a'r cyrsiau rydych chi wedi eu gwneud.

Ac mae'n rhoi manylion cyswllt 2 berson sydd yn gallu dweud wrthyn ni amdanoch chi. Er enghraifft, rheolwr o'r gwaith.




Anfonwch yr wybodaeth inni fel 1 ffeil. Mae'n gallu bod yn **ffeil Microsoft Word.** Neu yn **ffeil Adobe PDF.**



Ddylai maint y ffiel ddim bod yn fwy na **250mb**.




Rhaid rhoi pob fideo a deunydd sain drwy ddolenni gwefan. Er enghraifft o'ch gwefan neu o YouTube.




Fe fyddwn ni yn rhoi gwybod i chi pan rydyn ni wedi derbyn eich cais.



Os ydych chi yn llwyddiannus, fe fyddwn ni yn anfon Derbyniad Gwobr i chi.



Fe fydd angen i chi lofnodi hwn a'i anfon yn ôl inni.



Fe fydd y grant yn cael ei roi i chi mewn 3 cam ar draws y rhaglen.




Fe fyddwn ni yn penderfynu erbyn 29 Gorffennaf 2022.

## Gwybodaeth arall



Rhaid i chi fod wedi eich lleoli yng Nghymru.




Rhaid i chi gael cyfrif banc yn eich enw eich hun.



Dydych chi DDIM i fod mewn addysg llawn amser.

## Hygyrchedd




**Hygyrchedd** ydy gwneud yn siŵr bod rhywun yn gallu defnyddio rhywbeth, dim ots beth ydy eu anghenion nhw. Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall i bobl gydag anabledd dysgu.

Os oes gennych chi unrhyw anghenion **hygyrchedd,** rhowch wybod inni os gwelwch yn dda.

## Sut i gysylltu gyda ni

**E-bost:** grants@arts.wales

**Ffurflen cysylltu gwefan:** https://arts.wales/cy/amdanom-ni/cysylltwch-ni

**Twitter:** @Arts_Wales_

**Ffôn:** 03301 242733

# Geiriau Anodd

## Celfyddydau gweledol

Mae celfyddydau gweledol yn meddwl celf sydd yn gallu cael ei weld. Er enghraifft, peintiad, llun, cerflun, fideo a chelf byw

## Curadydd

Curadydd ydy person sydd yn gwneud arddangosfeydd ac mae hefyd yn gallu bod yn gyfrifol am gasgliad o gelf.

## C.V.

C.V. ydy Curriculum Vitae. Mae'n rhestru'r holl waith rydych chi wedi ei gael yn cynnwys gwaith gwrifoddol.

Mae'n dweud pa gymwysterau sydd gennych chi a'r cyrsiau rydych chi wedi eu gwneud

Ac mae'n rhoi manylion cyswllt 2 berson sydd yn gallu dweud wrthyn ni amdanoch chi. Er enghraifft, rheolwr o'r gwaith.

## Gwerthuso

Mae gwerthuso yn meddwl edrych dros y gwaith rydych chi wedi ei wneud a meddwl am beth rydych chi wedi ei ddysgu a beth sydd wedi gweithio yn dda. A beth sydd ddim wedi gweithio yn dda.

## Hygyrchedd

Hygyrchedd ydy gwneud yn siŵr bod rhywun yn gallu defnyddio rhywbeth, dim ots beth ydy eu anghenion nhw.

Er enghraifft, gwneud gwybodaeth yn Hawdd ei Ddeall i bobl gydag anabledd dysgu.

### Mentora

Mae hyn yn meddwl cefnogi rhywun i ddysgu sgiliau newydd

### Ymchwil

Mae hyn yn meddwl chwilio am wybodaeth am rhywbeth